The selection of Picton as a subject for the Pantheon was controversial. He was nineteenth in the ballot, and appeared to be a man largely out of tune with the orthodox Liberal piety of Edwardian Wales. Yet by the time of the unveiling, with the 38th (Welsh) Division in action on the Western Front, he may have seemed an inspired choice.



Images left to right: *Battle of Waterloo* by William Sadler (1782-1839); statue of Owain Glyndŵr, Cardiff; 38th (Welsh) Division Memorial, Mametz Wood, France; statue of Sir Thomas Picton, Cardiff

# OWAIN GLYNDŴR A SYR THOMAS PICTON

Enillydd y bleidlais gyhoeddus yn 1913 oedd Owain Glyndŵr (tua 1359-tua 1416) sy'n parhau i fod yn arwr oesol. Roedd Glyndŵr yn dirfediannwr aristocrataidd a oedd wedi gwasanaethu brenin Lloegr Rhisiart yr Ail mewn ymgyrchoedd yn yr Alban. Nid oedd Glyndŵr ar delerau da ag olynnydd Rhisiart, Harri'r Pedwerydd, a chododd mewn gwrthryfel yn 1400, gan gael ei gyhoeddi'n Dywysog Cymru.

Bu Glyndŵr yn ymladd yn erbyn Harri a'i fab (Harri'r Pumed yn ddiweddarach) am y 12 mlynedd nesaf mewn ymgyrch a oedd yn rhywfath o ryfel cartref yn ogystal â bod yn rhyfel dros annibyniaeth genedlaethol. Cafwyd buddugoliaethau cynnar ar faes y gad a chipwyd cestyll yn feiddgar, ond yn raddol mabwysiadwyd dulliau rhyfela gerila. Cynullwyd seneddau, gwnaed ymdrechion i sefydlu cysylltiadau diplomataidd â Ffrainc, ond yn y pendraw adferodd y Saeson eu gafael ar Gymru. Aeth Glyndŵr ar herw, yn Swydd Henffordd o bosibl, gyda'r dirgelwch a oedd yn cwmpasu ei ddiflaniad yn cynnig gobaith y gallai ddychwelyd rhyw ddiwrnod.

Nid oedd dewis dathlu Glyndŵr am ei allu fel gwladweinydd a'i ddewrder milwrol bum can mlynedd ar ôl ei farwolaeth yn awgrymu bod Cymru'n gwrrhod bod yn rhan o'r Deyrnas Unedig a'r Ymerodraeth Brydeinig. Yn hytrach, fel yr awgrymodd William Shakespeare (Henry IV, Rhan I) a chenedlaethau diweddarach, gellid ystyried bod Glyndŵr yn cynrychioli balchder ac ysbryd ymladdgar y Cymry, gan gyfuno hyn â phryder ehangach yngylch parhad a natur unigryw y genedl.

Mae'n debyg mai arweinydd milwrol o oes ddiweddarach, Syr Thomas Picton, yw'r cerflun lleiaf adnabyddus heddiw ymhlieth oriel yr enwogion. Ganed Picton

yn Hwlfordd yn 1758, gan ymuno â byddin Prydain yn 13 oed, ac enillodd glod mewn ymgyrchoedd yn y Caribî yn y 1790au. Fe'i penodwyd yn Llywodraethwr Trinidad yn 1797 a rheolodd gydag egni a llymder am chwe blynedd, ond ar ôl colli ffafir Prydeinwyr rhyddfrydol, fe'i cafwyd yn euog o ganiatâu arteithio merch 13 oed a amheuwyd o ddwyn.

Adferodd Picton ei enw da drwy arwain yr adran a adwaenid fel 'the Fighting Third' yn Rhyfel Iberia, yn ogystal â chynrychioli Bwrdeistrefi Penfro fel Aelod Seneddol y Ceidwadwyr. Ar ôl i Napoleon



ddianc o Elba, aeth Picton ar frys i ymuno â Wellington, ac fe'i lladdwyd yn arwain ei fyddin yn Waterloo ar 18 Mehefin 1815. Codwyd cofeb a oedd yn cynnwys cerflun o Picton yng Nghaerfyddin yn 1828, er i'r cerflun gael ei symud oddi yno yn ddiweddarach am resymau strwythurol. Er iddo gael ei gladdu mewn claddgell deuluol yn Llundain, symudwyd olion Picton i Eglwys Gadeiriol St Paul's yn 1859, ac ef yw'r unig Gymro i gael ei gladdu yno.

Roedd Picton yn ddewis dadleuol ar gyfer oriel yr enwogion. Cyrhaeddodd safle rhif 19 yn y bleidlais, ac roedd yn ymddangos fel gŵr a oedd yn anghydwedol â duwioldeb Rhyddfrydol uniongred Cymru Edwardaidd. Er hynny erbyn i'r cerflun gael ei ddadorchuddio, gyda'r 38ain Adran (Gymreig) yn ymladd ar Ffryst y Gorllewin, gallai fod wedi ymddangos fel dewis ysbrydoledig.



# BOUDICCA AND OTHERS

The last statue in the Pantheon was commissioned in 1914. Boudicca (known then as Boadicea) had not been the most popular female subject (that was the Methodist hymn writer Ann Griffiths, followed by Llywelyn ap Gruffudd's daughter Gwenllian) but she was distinctive, and held to represent 'women and Ancient Britain'.

The problem was that Buddug, to give her name the Welsh variant, had little or no connection with Wales. Queen of the Iceni, she ruled over much of East Anglia at the time of Julius Caesar's invasion of Britain. In about 60 or 61 she led a revolt against the Romans which annihilated an estimated 70,000 soldiers and civilians in Colchester, London and St Albans. The rebellion ended in a military defeat in the English Midlands, in which 80,000 Britons may have died. Boudicca probably took her own life shortly afterwards.

That the inclusion of a statue of a female subject was an afterthought, and that the subject was only very loosely Welsh, is indicative of the subordinate status of women in Welsh society, both historically and at the time. Women's right to the parliamentary franchise had still not been conceded when the statues were unveiled in 1916. To date, the only other statue of a named female in Wales is that in Wrexham of Queen Victoria (who, unlike Boudicca, definitely visited the country), unveiled in 1905.

A different perspective on the absences from the Welsh Pantheon was provided by the Liberal politician Tom Ellis's 1892 address, 'The Memory of the Kymric [or 'Cymric', meaning Welsh] Dead'. Ellis (who died in 1899 and whose statue was unveiled at Bala in 1902, a swift turnaround testifying to his own immense popularity and promise) identified four

categories of Welsh hero. The first was those who had 'worked for the national existence and unity of Wales', and included Hywel Dda, Llywelyn ap Gruffudd and Owain Glyndŵr. The second, 'those who ... have borne witness to the relations of man to God', included the Puritan John Penry and the educationalist Griffith Jones (Llanddowror). A third had 'striven to interpret nature and the relations of man to nature', and included Dafydd ap Gwilym and the painter Richard Wilson. But Ellis's final category, 'those who have pondered over the outlook for the social well-being of man, of the relation of man to man, the bearers of Neges Cymru [the message of Wales]', included just one candidate: a 'strong, strenuous, fertile-brained' Robert Owen



(1771-1858), industrialist, cooperator and utopian socialist, whom Ellis ranked alongside Plato and Sir Thomas More. Although Owen's adult relationship with Wales was tenuous, a statue of him was eventually unveiled in his native Newtown in 1956.



Images left to right: statue of Robert Owen, Newtown; statue of Boudicca, Cardiff; statue of Tom Ellis, Bala; detail, statue of Boudicca, Cardiff

# BUDDUG AC ERAILL

Comisiynwyd y cerflun olaf yn 1914. Nid Buddug oedd y fenyw fwyaf poblogaidd yn y bleidlais (yr emynydd Methodistaidd Ann Griffiths gafodd yr anrhydedd hwnnw, ac yna Gwenllian, ferch Llywelyn ap Gruffudd) ond tybiwyd bod Buddug yn cynrychioli menywod a Phrydain fore.

Y broblem oedd mai prin oedd cysylltiadau Buddug â Chymru, os o gwbl. Buddug oedd Brenhines llwyth yr Iceni, gan reoli dros ran helaeth o Ddwyrain Anglia ar adeg goresgyniad Iŵl Cesar. Yn y flwyddyn 60 neu 61 arweiniodd wrthryfel yn erbyn y Rhufeiniaid a laddodd tua



70,000 o filwyr a dinasyddion yng Nghaer Colun, Llundain a St Albans. Trechwyd y gwrthryfel ar faes y gad yng nghanolbarth Lloegr lle y lladdwyd tua 80,000 o Frythoniaid, o bosibl. Mae'n debyg i Buddug gyflawni hunan-laddiad yn fuan wedyn.

Ôl-ystyriaeth oedd cynnwys cerflun o fenyw, ac mae hynny a'r ffaith mai prin oedd ei chysylltiadau â Chymru yn arwydd o statws israddol menywod yn y gymdeithas Gymreig, yn hanesyddol ac ar y pryd. Nid oedd gan fenywod yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau seneddol pan ddadorchuddiwyd y cerfluniau yn 1916. Hyd hynny, yr unig gerflun o fenyw benodol yng Nghymru oedd y cerflun yn Wrecsam o'r Frenhines Fictoria (a oedd, yn wahanol i Buddug, yn bendant wedi ymweld â'r wlad), a ddadorchuddiwyd yn 1905.

Cafwyd safbwyt gwahanol ar yr absenoldebau o Oriel Enwogion Cymru gan y gwleidydd Rhyddfrydol Tom Ellis mewn arraith o'r enw 'The Memory of the Kymric Dead' yn 1892. Nododd Ellis (a fu farw yn 1899, ac y dadorchuddiwyd cerflun ohono yn y Bala yn 1902, sy'n dystiolaeth o'i boblogrwydd sylweddol) bedwar categori o arwyr Cymreig. Y categori cyntaf oedd y rheini a oedd wedi gweithio i sicrhau bodolaeth genedlaethol ac undod Cymru, ac a oedd yn cynnwys Hywel Dda, Llywelyn ap Gruffudd ac Owain Glyndŵr. Roedd yr ail categori, sef y rheini a oedd wedi tystio i berthnasau dyn â Duw, yn cynnwys y Piwritan John Penry a'r addysgwr Griffith Jones (Llanddowror). Roedd y trydydd categori wedi ceisio dehongli natur a pherthnasau dyn â natur, ac yn cynnwys Dafydd ap Gwilym a'r arlunydd Richard Wilson. Ond roedd categori olaf Ellis, sef y rheini a oedd wedi myfyrio ar ragolygon

lles cymdeithasol dyn, ar berthynas dyn â dyn, cenhadon Neges Cymru, yn cynnwys un enwebai yn unig sef Robert Owen (1771-1858), a ddisgrifiwyd gan Ellis fel 'strong, strenuous, fertile-brained', diwydiannwr, cydweithredwr a sosialydd iwtapaidd, yr oedd Ellis yn ei ystyried fel crystal gŵr â Plato a Syr Thomas More. Er mai prin oedd cysylltiadau Owen â Chymru pan oedd yn oedolyn, o'r diwedd codwyd cerflun ohono yn ei dref enedigol, y Drenewydd yn 1956.




# THE PARADISE OF THE BRAVE

In 2005, Gwynfor Evans, former President of the Welsh Nationalist Party Plaid Cymru, and its first MP, died at the age of ninety-two. Although born in Barry, Evans's strongest associations were with Carmarthen, which he had represented in Parliament. Shortly after Evans's death, the suggestion was made in the magazine Cambria that a statue be erected in his memory, located in Nott Square. The problem? The presence of an 1851 statue of Sir William Nott, hero of the first Anglo-Afghan War (1838-42). Cambria suggested that Nott's statue - 'a wholly inappropriate symbol of the new Wales, remembering, as it does, a footnote from a largely discredited imperial past' - should be removed. At the time of

writing no action has been taken.

Head north-east from Carmarthen for about 125 miles, and fast forward six years. You are in Denbigh in 2011.



In front of the town's library a new statue has been unveiled. It is of the explorer Henry Morton Stanley, born in 1841 in the town with the name John Rowlands. Stanley is famous for the words, 'Dr Livingstone, I presume?', uttered on encountering the Scottish missionary on the shores of Lake Tanganyika in 1871. To contemporaries he was 'the Napoleon Bonaparte of African exploration' but to many today he is infamous for the brutality which accompanied his ventures. The statue is controversial. Is it also 'a footnote from a largely discredited imperial past'?

These examples are further evidence that commemorating the past is never a simple matter. As we have seen in this booklet, few lives are so blameless or laudable as to be entirely free from the stains of controversy. A concentration on 'great men' elevates the exceptional, isolates the individual from his or her social context, and risks neglecting the contribution made by thousands - hundreds of thousands - of ordinary people.

Perhaps this is why there has been a shift in recent times towards 'collective' statuary: still individual figures, but representing occupations, communities, and ideals. In Tonypandy in the Rhondda Fawr, there is the miner and his family; outside Newport's Westgate Hotel, there are sculptures symbolising the values of the Chartist movement; and in Cardiff Bay, the area's multicultural heritage is beautifully captured in 'People Like Us'. The historical record here is more pliable: we sense the best resonances of these sculptures, rather than fixate on a politically incorrect detail from ages past.

What this brief investigation of Welsh historic statuary has shown is that any form in which the history of a people is represented is of necessity selective and challenging. This is because history is fluid: its meanings never fixed, its interpretation always a matter for debate.



# AFALLON Y DEWRION



Yn 2005 bu farw Gwynfor Evans, cyn-lywydd Plaid Cymru a'i Haelod Seneddol cyntaf, yn 92 oed. Er iddo gael ei eni yn y Barri, roedd gan Evans gysylltiad cryf â Chaerfyrddin, sef yr etholaeth a gynrychiolwyd ganddo yn y Senedd. Yn fuan ar ôl marwolaeth Evans, awgrymwyd yn y cylchgrawn Cambria y dylid codi cofeb iddo yn Sgwâr Nott. Y broblem? Y ffaith bod cerflun yno eisoes o Syr William Nott, arwr rhyfel cyntaf Prydain yn Afghanistan (1838-42). Awgrymodd Cambria y dylid dymchwel y cerflun o Nott gan ei fod yn symbol anaddas o'r Gymru newydd, gan ei fod yn coffáu troednodyn o'r gorffennol ymerodrol sydd dan anfri i raddau helaeth. Ni chymerwyd unrhyw gamau hyd yn hyn.

Ewch i'r gogledd-ddwyrain o Gaerfyrddin am tua 125 o filltiroedd, ac ewch ymlaen chwe mlynedd. Rydych yn Ninbych yn 2011. Dadorchuddiwyd cerflun newydd o flaen llyfrgell y dref. Cerflun ydyw o'r fforiwr Henry Morton Stanley, a aned yn y dref yn 1841 gyda'r enw John Rowlands. Mae Stanley yn enwog am adrodd y geiriau 'Dr Livingstone, I presume?' wrth gyfarfod â'r cennad Albanaidd ar lannau Llyn Tanganyika yn 1871. Roedd Stanley yn enwog i'w gyfoedion fel 'Napoleon Bonaparte y maes fforio yn Affrica', ond bellach mae ganddo enw drwg oherwydd ei greulondeb tuag at y brodorion. Mae'r cerflun yn ddadleuol. A yw hefyd yn 'droednodyn o'r gorffennol ymerodrol sydd dan anfri i raddau helaeth'?

Mae'r engrifftiau hyn yn dystiolaeth bellach nad yw coffáu'r gorffennol byth yn beth syml. Fel y gwelwyd yn y llyfrlyn hwn, prin yw'r bobl sydd yn gwbl rydd o ymddygiad dadleuol. Mae canolbwytio ar 'wŷr o fri' yn dyrchafu'r eithriadol, yn ynysu'r unigolion o'u cyd-destun cymdeithasol, ac yn peri'r risg o ddiystyr u'r cyfraniad a wnaed gan filoedd - os nad cannoedd ar filoedd - o bobl gyffredin.

Efallai mai dyna pam bod newid tuag at gerfluniau 'cyfunol' yn ddiweddar: cerfluniau o ffugrau unigol o hyd, ond yn cynrychioli

galwedigaethau, cymunedau a delfrydau. Yn Nhonympandy yn y Rhondda Fawr, ceir cerflun o'r glöwr a'i deulu; ceir cerfluniau sy'n cynrychioli gwerthoedd mudiad y Siartwyr y tu allan i westy'r Westgate yng Nghasnewydd; ac ym Mae Caerdydd, cynrychiolir treftadaeth amlddiwylliannol yr ardal gan y cerfluniau 'Pobl Fel Ni'. Mae'r cofnod hanesyddol yn fwy hyblyg yma: rydym yn gweld yr ochr orau o'r cerfluniau hyn, yn hytrach na chanolbwytio ar fanylion gwleidyddol-anghywir o'r oesoedd a fu.

Mae'r ymchwiliad byr hwn i gerfluniau hanesyddol Cymru wedi dangos bod unrhyw ddull o gynrychioli hanes cenedl o reidrwydd yn ddewisol ac yn heriol. Mae hyn oherwydd bod hanes yn ansefydlog: nid yw ei ystyron yn sefydlog, a gellir bob amser dadlau dros y ffordd o'i ddehongli.



# LEARNING WITH THE OPEN UNIVERSITY

The Open University (OU) is Europe's largest academic community. With more than 2 million students learning with us each year and around 600 courses available in a range of fascinating and challenging subjects, you're sure to be inspired. We call our flexible study method 'Supported Open Learning' - it's study that fits around you and your life.

You can start with a single course in an area of interest or in a topic that's relevant to your job, or your future career. And if you want, you can follow a programme towards a qualification such as a certificate, diploma or degree.

## BEGINNING TO STUDY

If you have no experience of higher education, deciding to become an undergraduate student can be a big step. To understand more about studying at The Open University, visit [www.open.ac.uk/study](http://www.open.ac.uk/study)

Our **Openings** programme of introductory courses, such as *Making sense of the arts*, has been specially designed to help you develop your learning skills and build your confidence - perfect for new learners.

## Openings:

### ***Making sense of the arts (Y180)***

*Making sense of the arts* introduces some of the key ideas and ways of thinking involved in studying the arts and humanities. You'll explore poetry, history and art, while also developing a range of study skills. No previous experience of studying is required; just that you're interested in the arts and keen to discover more.

## Short courses:

### ***Small country, big history: themes in the history of Wales (A182)***

How does a country without political independence gain an identity? What is the role of history and historians in shaping national memory and identity? The course introduces themes and methods used in understanding Welsh history. A series of fascinating case studies will develop your understanding of Welsh history, the craft of the historian and some of the ways in which national identities are formed. *This course is being presented in April and October 2012 (with course registration closing in March and September).*

### ***Contemporary Wales (D172)***

This course will extend your understanding of core aspects of contemporary Wales by investigating social sciences concepts such as culture, society, economy and politics. By the end of the course you will have a thorough understanding of a changing nation and be equipped with the skills you will need for further study.

## Level 1 courses:

### ***Croeso: beginners' Welsh (L196)***

*Croeso: beginners' Welsh* gives you the skills to speak and understand simple Welsh in everyday contexts by taking you through a wide range of practical situations; it also explores aspects of Welsh society and culture. No previous knowledge of Welsh is required.

### ***The arts past and present (AA100)***

This broadly focused course introduces you to university-level study in the arts

across a range of subject areas, including history, art history, philosophy, classical studies, history of science, religious studies, music and English. It is structured around four themes: Reputations, Tradition and Dissent, Cultural Encounters, and Place and Leisure.

## Level 2 courses:

### ***Exploring history: medieval to modern 1400-1900 (A200)***

This course is a varied and wide-ranging introduction to historical study, covering fifteenth-century France, Burgundy and England during the Hundred Years' War; the sixteenth-century Protestant Reformation; seventeenth-century civil wars of the British Isles; slavery and serfdom in the Atlantic world in the eighteenth and nineteenth centuries; the development of nation states in western Europe following the French Revolution; and European imperialism in Africa.

## ***From Enlightenment to***

### ***Romanticism c. 1780-1830 (A207)***

Designed to give you a critical understanding of this crucially formative period in modern European history, at the heart of this course is a range of European texts associated with the epoch-making transition from Enlightenment to Romanticism. Texts include music, philosophical and scientific writings, historical documents, poetry, paintings, and architecture.

### ***Master of Arts in History (A825)***

Our MA programme introduces you to the fascinating study of local and regional history. The course explores local history in the different nations that make up the UK and develops the key skill of locating

sources in archives and on the Internet. The second half of the programme allows you to pursue your own interests through a choice of modules on a range of historical topics, including Welsh history.

## SUPPORTING YOU ALL THE WAY

Whatever you decide to do, we're right behind you and you're never alone. With many courses you'll benefit from unrivalled one-to-one support from your tutor, who can be contacted by telephone, email or face-to-face. Your tutor will provide advice and guidance throughout your studies, and will give individual feedback on your progress. Your Regional Centre is also on hand to answer any queries you may have.

## Find out more

To learn more about our courses and qualifications, and to find out what it's like to be an OU student:

- visit our website at [www.open.ac.uk/study](http://www.open.ac.uk/study)
- call our Student Registration and Enquiry Services on **0845 300 60 90**
- email [general-enquiries@open.ac.uk](mailto:general-enquiries@open.ac.uk) or
- write to **The Open University,  
PO Box 197, Walton Hall,  
Milton Keynes, MK7 6BJ**

For information about Open University broadcasts and associated learning, visit our website [open.edu/openlearn/whats-on](http://open.edu/openlearn/whats-on)

The Open University has a wide range of learning materials for sale, including self-study workbooks, DVDs, videos and software. For more information, visit the website [www.ouw.co.uk](http://www.ouw.co.uk).

Published in 2012 by The Open University, Walton Hall, Milton Keynes, MK7 6AA, to accompany BBC Cymru Wales/Open University series first broadcast in January 2012:

*The Story of Wales*, first broadcast on BBC One Wales

Broadcast Commissioner for the OU:  
Caroline Ogilvie

BBC Wales Executive Producer:  
Elis Owen

Series Producer for Green Bay Media Ltd:  
Phil George and John Geraint

Media Fellow for the OU:  
Professor Derek Matravers

Academic Consultants for the OU:  
Professor Trevor Herbert, Professor Chris Williams, Dr Matthew Griffiths

*Histories of Wales*, first broadcast on BBC Radio Wales

BBC Wales Executive Producer:  
Kerry McGeever

Series Producer:  
Dinah Jones

Academic Consultant for series:  
Dr Bill Jones

Media Fellow for the OU:  
Professor Derek Matravers

Academic Consultant for the OU:  
Professor Trevor Herbert

*Icons of Wales*, Open University booklet

Author:  
Professor Chris Williams

Academic Consultant for the OU:  
Professor Trevor Herbert

Graphic Designer:  
Peter Heatherington

Original Photography:  
Warren Orchard

Broadcast Project Manager:  
Julia Burrows

## Acknowledgements:

Original photography: Warren Orchard  
Grateful acknowledgment is made to the following image sources:

I'R GAD Poster: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (The Welsh Language Society)  
Caernarfon Castle: © eyewave / iStockPhoto.com

Pembroke Castle: © Frank Hinley  
Morgan Bible: By permission of Llyfrgell Genedlaethol Cymru / The National Library of Wales

Statue Gareth Edwards: © Viv Head  
Statue Tom Ellis: © Oosoom. Reproduced under Creative Commons Attribution Share-Alike 3.0 Unported, <http://creativecommons.org/licenses/by-sa/3.0/> deed.en and GNU Free Documentation Licenses, <http://en.wikipedia.o>

Cardiff City Hall & Mametz Memorial: © Chris Williams

Battle of Waterloo: © Mathiasrex, [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Battle\\_of\\_Waterloo\\_1815.PNG](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Battle_of_Waterloo_1815.PNG)

Copyright © The Open University 2012

All rights reserved. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system, or transmitted in any form or by any means, electronic, mechanical, photocopying, recording or otherwise without the prior permission of the copyright holders.

Enquiries regarding extracts or the re-use of any information in this publication should be sent to The Open University's Acquisitions and Licensing Department - email

Rights-General@openmail.open.ac.uk or call 01908 653511

Edited by The Open University

Printed and bound in the United Kingdom by CKN Print Ltd.

# DYSGU GYDA'R BRIFYSGOL AGORED

Y Brifysgol Agored yw'r gymuned academaidd fwyaf yn Ewrop. Gyda mwy na 2 filiwn o fyfyrwyr yn dysgu gyda ni bob blwyddyn a thua 600 o grysiau ar gael mewn amrywiaeth o bynciau diddorol a heriol, byddwch yn sicr o ddod o hyd i gwrs sy'n eich ysbyddoli. Enw ein dull astudio hyblyg yw 'Dysgu Agored â Chymorth' - ffordd o astudio sy'n gwedd i chi a'ch bywyd chi.

Gallwch wneud un cwrs i ddechrau mewn maes sydd o ddiddordeb i chi neu bwnc sy'n berthnasol i'ch swydd, neu eich gyrrfa yn y dyfodol. Ac os hoffech, gallwch ddilyn rhaglen sy'n arwain at gymhwyster fel dystysgrif, diploma neu radd.

## DECHRAU ASTUDIO

Os nad oes gennych brofiad o addysg uwch, gall penderfynu dod yn fyfyrwr israddedig fod yn gam mawr. Er mwyn deall mwy am astudio yn y Brifysgol Agored, ewch i

[www.open.ac.uk/study](http://www.open.ac.uk/study)

Mae ein rhaglen o **Grysiau Cychwyn** fel *Deall y celfyddydau*, wedi'i chynllunio'n benodol i'ch helpu i ddatblygu eich sgiliau dysgu a magu eich hyder - mae hyn yn berffaith i ddysgwyr newydd.

## Cyrsiau Cychwyn:

### **Deall y celfyddydau (Y180)**

Mae *Deall y celfyddydau* yn cyflwyno rhai o'r syniadau a'r ffyrdd o feddwl allweddol sydd ynghlwm wrth astudio'r celfyddydau a'r dyniaethau. Byddwch yn dysgu am farndoniaeth, hanes a chelf ac yn datblygu amrywiaeth o sgiliau astudio ar yr un pryd. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol o astudio arnoch; y cyfan sydd ei angen yw diddordeb yn y celfyddydau a brwd frydedd i ddysgu mwy.

## Cyrsiau byr:

### **Gwlad fach, hanes mawr: themâu yn hanes Cymru (A182)**

Sut mae gwlad heb annibyniaeth wleidyddol yn meithrin hunaniaeth? Beth yw'r rôl hanes a haneswyr o ran llunio atgofion a hunaniaeth genedlaethol? Mae'r cwrs yn cyflwyno themâu a dulliau a ddefnyddir i ddeall hanes Cymru. Bydd cyfres o astudiaethau achos diddorol yn datblygu eich dealltwriaeth o hanes Cymru, crefft yr hanesydd a rhai o'r ffyrdd y caiff hunaniaethau cenedlaethol eu llunio. *Cyflwynir y cwrs hwn ym mis Ebrill a mis Hydref 2012 (gyda dyddiadau cau i gofrestru ym mis Mawrth a mis Medi).*

### **Cymru Gyfoes (D172)**

Bydd y cwrs hwn yn ymestyn eich dealltwriaeth o agweddu craidd ar Gymru gyfoes drwy ymchwilio i gysyniadau sy'n ymwneud â gwyddorau cymdeithasol fel diwylliant, cymdeithas, yr economi a gwleidyddiaeth. Erbyn diwedd y cwrs, bydd gennych ddealltwriaeth drwyndl o genedl sy'n newid a'r sgiliau fydd eu hangen arnoch i astudio ymhellach.

## Cyrsiau lefel 1:

### **Croeso: Cymraeg i ddechreuwyr (L196)**

Mae *Croeso: Cymraeg i ddechreuwyr* yn rhoi'r sgiliau i chi siarad a deall Cymraeg syml mewn cyd-destun pob dydd drwy fynd â chi drwy amrywiaeth eang o sefyllfaoedd ymarferol; mae hefyd yn ystyried agweddu ar gymdeithas a diwylliant Cymru. Nid oes angen unrhyw wybodaeth flaenorol o'r Gymraeg.

### **Y celfyddydau ddoe a heddiw (AA100)**

Mae'r cwrs eang hwn yn cyflwyno astudio lefel prifysgol i chi yn y celfyddydau

ar draws amrywiaeth o feisydd pwnc, gan gynnwys hanes, hanes celfyddyd, athroniaeth, astudiaethau clasurol, hanes gwyddoniaeth, astudiaethau crefyddol, cerddoriaeth a Saesneg. Mae'n seiliedig ar bedair thema: Enw da, Traddodiad ac Anghytundeb, Sefyllfaoedd Diwylliannol, a Lle a Hamdden.

## Cyrsiau lefel 2:

### **Archwilio hanes: o'r cyfnod canoloesol i'r cyfnod modern 1400-1900 (A200)**

Mae'r cwrs hwn yn gyflwyniad amrywiol ac eang i astudiaeth hanesyddol, yn cwnpasu Ffrainc yn y bymthegfed ganrif ar ddeg, Bwrgwyn a Lloegr yn ystod y Rhyfel Can Mlynedd; y Diwygiad Protestannaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg; rhyfeloedd cartref Ynysoedd Prydain yn yr ail ganrif ar bymtheg; caethwsiaeth a thaesogaeth ym myd yr Iwerydd yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; datblygiad cenedl-wladwriaethau yng ngorllewin Ewrop ar ôl y Chwyldro Ffrengig; ac imperialaeth Ewropeaidd yn Africa.

### **Yr Oes Oleuedig i'r Cyfnod Rhamantaidd tua 1780-1830 (A207)**

Wrth wraidd y cwrs hwn, sydd wedi'i gynllunio i roi dealltwriaeth feirniadol o'r cyfnod ffurfiannol hanfodol hwn yn hanes modern Ewrop, mae amrywiaeth o destunau Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â'r cyfnod pontio rhwng yr Oes Oleuedig a'r Cyfnod Rhamantaidd. Ymhlieth y testunau mae cerddoriaeth, ysgrifau athronyddol a gwyddonol, dogfennau hanesyddol, barddoniaeth, gwaith paentio, a phensaerniath.

### **Meistr y Celfyddydau mewn Hanes (A825)**

Mae ein rhaglen feistr yn eich cyflwyno i faes astudio hanes lleol a rhanbarthol. Mae'r cwrs yn archwilio hanes lleol yn y gwahanol wledydd sy'n rhan o'r DU

ac yn datblygu'r sgil allweddol o ddod o hyd i ffynonellau mewn archifau ac ar y Rhyngrwyd. Mae ail hanner y rhaglen yn gyfle i chi ddilyn eich diddordeb eich hun drwy ddewis modiwlau ar amrywiaeth o bynciau hanesyddol, gan gynnwys hanes Cymru.

## CEENO GAETH BOB CAM O'R FFORDD

Beth bynnag y byddwch yn penderfynu ei wneud, rydym yn gefn i chi bob cam o'r ffordd ac ni fyddwch byth ar eich pen eich hun. Cewch gymorth un-i-un heb ei ail gan eich tiwtor mewn llawer o gyrsiau, a gallwch gysylltu ag ef dros y ffôn, e-bost neu wyneb yn wyneb. Bydd eich tiwtor yn rhoi cyngor ac arweiniad i chi drwy gydol eich astudiaethau, a bydd yn rhoi adborth unigol i chi ar eich datblygiad. Bydd eich Canolfan Ranbarthol hefyd wrth law i ateb unrhyw gwestiynau a llai fod gennych.

## Rhagor o wybodaeth

I ddysgu mwy am ein cyrsiau a'n cymwysterau, a sut brofiad yw bod yn un o fyfyrwyr y Brifysgol Agored:

- ewch i'n gwefan yn [www.open.ac.uk/study](http://www.open.ac.uk/study)
- ffoniwch ein Gwasanaethau Cofrestru ac Ymholiadau Myfyrwyr ar **0845 300 60 90**
- e-bostiwch [general-enquiries@open.ac.uk](mailto:general-enquiries@open.ac.uk) neu
- ysgrifennwch at **The Open University, PO Box 197, Walton Hall, Milton Keynes MK7 6BJ**

I gael rhagor o wybodaeth am ddarlleidiadau a dysgu cysylltiedig y Brifysgol Agored, ewch i'n gwefan [open.edu/openlearn/whats-on](http://open.edu/openlearn/whats-on)

Mae amrywiaeth eang o ddeunyddiau dysgu ar werth yn y Brifysgol Agored, gan gynnwys llyfrau gwaith hunanastudio, DVDs, fideos a meddalwedd. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r wefan yn [www.ouw.co.uk](http://www.ouw.co.uk)

Cyhoeddwyd yn 2012 gan The Open University, Walton Hall, Milton Keynes, MK7 6AA, i gyd-fynd â chyfres BBC Cymru Wales/y Brifysgol Agored a ddarlleddyd gyntaf ym mis Ionawr 2012:

*The Story of Wales*, a ddarlleddyd gyntaf ar BBC One Wales

Comisiynydd Darlledu ar gyfer y Brifysgol Agored: Caroline Ogilvie

Uwch Gynhyrchydd BBC Cymru: Elis Owen

Cynhyrchwyr y Gyfres ar gyfer Green Bay Media Ltd: Phil George and John Geraint

Cymrawd y Cyfryngau ar gyfer y Brifysgol Agored: Yr Athro Derek Matravers

Ymgynghorwyr Academaidd ar gyfer y Brifysgol Agored:

Yr Athro Trevor Herbert, yr Athro Chris Williams, Dr Matthew Griffiths

*Histories of Wales*, a ddarlleddyd gyntaf ar BBC Radio Wales

Uwch Gynhyrchydd BBC Cymru: Kerry McGeever

Cynhyrchydd y Gyfres: Dinah Jones

Ymgynghorydd Academaidd y gyfres: Dr Bill Jones

Cymrawd y Cyfryngau ar gyfer y Brifysgol Agored: Yr Athro Derek Matravers

Ymgynghorydd Academaidd ar gyfer y Brifysgol Agored: Yr Athro Trevor Herbert

*Eiconau Cymru*, llyfryn y Brifysgol Agored Awdur: Yr Athro Chris Williams

Ymgynghorydd Academaidd ar gyfer y Brifysgol Agored: Yr Athro Trevor Herbert

Dylunydd Graffeg: Peter Heatherington

Ffotograffiaeth Wreiddiol: Warren Orchard

Rheolwr y Prosiect Darlledu: Julia Burrows

Cydnabyddiaeth:  
Ffotograffiaeth wreiddiol: Warren Orchard Rydym yn ddiolchgar i gyfranwyr y delweddau canlynol:  
Poster I'R GAD: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg  
Castell Caernarfon: (h) eyewave / iStockPhoto.com  
Castell Penfro: (h) Frank Hinley  
Beibl William Morgan: Drwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Cerflun o Gareth Edwards: (h) Viv Head  
Cerflun o Tom Ellis: (h) Oosoom.  
Atgynhyrchwyd yn unol â thelerau Athreuliad Share-Alike 3.0 Unported Creative Commons, <http://creativecommons.org/licenses/by-sa/3.0/> deed.en a GNU Free Documentation Licenses, <http://en.wikipedia.org>  
Neuadd y Ddinas, Caerdydd a Chofeb Mametz: (h) Chris Williams  
Brwydr Waterloo: (h) Mathiasrex, [http://en.wikipedia.org/wiki/File:Battle\\_of\\_Waterloo\\_1815.PNG](http://en.wikipedia.org/wiki/File:Battle_of_Waterloo_1815.PNG)  
Hawlfraint (h) Y Brifysgol Agored 2012

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, na'i storio mewn system adfer, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw ddull, electronig neu fecanyddol, na thrwy lungopio, recordio neu fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw y deiliaid hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau'n ymneud â darnau neu ailddefnyddio unrhyw wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn i Adran Caffael a Thrwyddedu'r Brifysgol Agored - drwy e-bostio Rights-General@openmail.open.ac.uk neu ffonio 01908 653511

Golygyd gan y Brifysgol Agored

Wedi'i argraffu a'i glymu yn y Deyrnas Unedig gan CKN Print Ltd.

## OPEN LEARN

The UK's biggest free learning website from The Open University. You will find a wealth of information on the subject of Wales and its history by visiting [open.edu/openlearn/storyofwales](http://open.edu/openlearn/storyofwales)

## THE OPEN UNIVERSITY IN WALES

People love studying with The Open University in Wales - that's why The OU is continually voted the top university in Wales for overall student satisfaction. Over 10,000 students from virtually every community in Wales study with The OU, making it the nation's leading provider of part-time undergraduate study. For more information go to [www.openuniversity.co.uk/wales](http://www.openuniversity.co.uk/wales)

## DYSGU AGORED

Gwefan dysgu am ddim fwyaf y DU gan y Brifysgol Agored. Mae toreh o wybodaeth am Gymru a hanes Cymru ar gael yn [open.edu/openlearn/storyofwales](http://open.edu/openlearn/storyofwales)

## Y BRIFYSGOL AGORED YNG NGHYMRU

Mae pobl wrth eu bodd yn astudio gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru - dyma pam eu bod yn ei henwi fel prifysgol orau Cymru yn rheolaidd o ran boddhad cyffredinol myfyrwyr. Mae dros 10,000 o fyfyrwyr o bron pob cymuned yng Nghymru yn astudio gyda'r Brifysgol Agored, felly ni yw prif ddarparwr astudiaethau israddedig rhan amser y wlad. Am ragor o wybodaeth ewch i [www.openuniversity.co.uk/wales](http://www.openuniversity.co.uk/wales)



This map shows the places mentioned in this booklet. The county names and boundaries are those that were in use until the Local Government Act of 1972.

Mae'r map hwn yn dangos y lleoedd a enwyd yn y llyfrym hwn. Nodwyd yr enwau a'r ffiniau sirol a ddefnyddiwyd hyd at Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.